

SL(5)580 - Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau'n gwneud darpariaeth dros dro mewn perthynas â gweinyddu Fforymau Mynediad Lleol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu parhau i gyfarfod a gwneud penderfyniadau yn ystod y cyfnod o amhariad a achosir gan bandemig y coronafeirws.

Mae'r camau a ddefnyddir i frwydro yn erbyn COVID-19 yn cynnwys cadw pellter cymdeithasol, osgoi teithio nad yw'n hanfodol a'r gofyniad i weithio gartref pan fydd hynny'n bosibl. Mae Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001 ar hyn o bryd yn gosod gofynion ar Fforymau Mynediad Lleol i gyfarfod yn bersonol, i sicrhau bod cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd ac i alluogi'r cyhoedd i archwilio eu hadroddiadau blynyddol yn swyddfeydd eu hawdurdodau llywodraethu perthnasol. Mae hyn yn mynd yn groes i'r camau sydd ar waith ar gyfer COVID-19.

Mae'r Rheoliadau'n darparu hyblygrwydd i alluogi Fforymau Mynediad Lleol i weithredu'n ddiogel, yn effeithiol ac yn gyfreithlon drwy, er enghraifft, alluogi y gellir cynnal cyfarfodydd ar sail presenoldeb o bell llawn neu bresenoldeb rhannol, a thrwy wneud darpariaeth o ran cyhoeddi rhai dogfennau yn electronig.

Y weithdrefn

Penderfyniad negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus nac asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r memorandwm esboniadol yn nodi, o ystyried y bygythiad difrifol a brys a ddaw yn sgîl y coronafeirws a'r angen am ymateb brys o ran iechyd y cyhoedd, ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, ac mae'n nodi bod Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd ag awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru. Dywed y memorandwm esboniadol fod y camau a gymerwyd yn rhai dros dro ac na fydd y ddeddfwriaeth yn creu unrhyw newidiadau polisi sylweddol.



Y goblygiadau yn sgîl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

27 Gorffennaf 2020



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Legislation, Justice and Constitution Committee